

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,
Nos Lun, 25 Mawrth 2019
am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol: B Hughes **BH**, A Jones **AJ** (yn y gadair), L Jones **LJ**, Cari Jones **CJ**, V Owen **VO**, JA Roberts **JAR**, OG Roberts **OGR**, EAB Thomas **EABT**, Cynghorwr John Griffith **JG**, R Owen **clerc**.

Ymddiheuriadau: J Ferry **JF**, Aled Ifan **AI**, E Jones **EJ**.

2. Datgan Diddordeb: **JG** ynglyn ac eitem 6.

3. Arwyddo cofnodion Chwefror 2019.

Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir. **VO** yn cynnig, **BH** yn eilio.

4. Materion sy'n codi.

4.1 Adroddwyd nad yw arbenigwr o CSYM wedi ymweld a'r fynwent eto, ac heb ei farn mae'n anodd iawn gallu gwneud penderfyniad oherwydd y gwahaniaethau mawr ym mhrisiau sydd wedi'u derbyn. Cynnigodd **JG** wneud ymholiadau pellach gyda'r arbenigwr a cheisio cael cadarnhad pa bryd fydd yn gallu ymweld a'r fynwent.

4.2 Cadarnhaodd o clercc ar ol trafod gyda pennaeth yr Ysgol Uwchradd fod y diffibriliwr wedi ei leoli thu allani'r brif fynedfa. Y clercc i gyhoeddi'r lleoliad ar y we a'r hysbysfwrdd.


4.3 Y clercc wedi gwneud adroddiad i CSYM ynglyn a thrin ceir thu allan i Southend, ond heb gael ymateb eto.

5. Derbyn adroddiadau ynglyn a'r maes chwarae gan cynrychiolydd Ffrindiau Bodedern.

Adroddwyd fod noson ffilm wedi ei drefnu yn y neuadd ar gyfer 14 Ebrill i godi arian.

6. Deddf Cynllunio a Gwlad a Thref: I dderbyn unrhyw sylwadau ar geisiadau cynllunio.

Dim ceisiadau.



Cyngor Cymuned Bodedern



7. Gohebiaeth i'w adolygu

7.1 Derbyniwyd ebost gan AMP Construction yn gofyn am fewnbwn y cyngor i ddewis enw ar gyfer y datblygiad newydd gyferbyn a Llwyn Llinos. Cytunwyd ar yr enw "Maes Gwerfyl" oherwydd y cysylltiad hanesyddol a'r safle gyda'r enw. Y clerc i'w yrru ymlaen i AMP Construction.

7.2 Derbyniwyd ebost gan CND Cymru yn gofyn i'r cyngor gytuno a'r cynnig i wrthwynebu claddu gwastraff niwclear yng Nghymru. Cytunodd y cyngor a'r cynnig-y clerc i gadarnhau i CND Cymru.

7.3 Derbyniwyd ebost gan gwmni Llif Llanw Morlais yn hysbysu sesiwn wybodaeth yn Neuadd Gymunedol Llaingoch.

7.4 Cylchlythyr Rhun ap Iorwerth.

7.5 Derbyniwyd ebost gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cadarnhau na fydd BDO yn ymgymryd a'r gwaith archwilio o 2020 ymlaen.

7.6 Derbyniwyd ebost gan Mr Alun Foulkes yn cynnig ei wasanaeth fel archwilwr mewnol. Cytunwyd iddo barhau gyda'r gwaith.

8. Taliadau i'w gwneud- Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol (*Yn unol a Rheol 12 o'r Rheolau Sefydlog*)

8.1 HMRC	Ion/Chwef/Maw	£120.00	Siec 200070
8.2 Cyflog Clerc	Ion/Chwef/Maw	£480.00	Siec 200071
8.3 CSYM	Rent Cae Chwarae	£65.20	Siec 200072

9. Eitemau a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y Cynghorwyr.

9.1 Derbyniwyd lythyr gan trysorydd Eglwys Bodedern yn gwahodd rhodd ariannol tuag at gostau'r Eglwys. Cytunwyd i ohurio unrhyw benderfyniad nes fod sefyllfa trin waliau'r fynwent wedi' gadarnhau.

9.2 Nododd JG fod sawl ymgynghoriad ar wefan CSYM y gallai'r cynghorwyr gyflwyno barn.

9.3 Nododd JG fod cwmni newydd yn mynd i fod yn ymgymrud a gwaith cynnal a chadw i CSYM ac gobeithio gallant weithio drwy'r gwaith sydd angen i'w wneud.

9.4 Nodwyd pryder fod cymaint o arwyddion y pentref wedi dod i lawr ac heb eu ail osod. Cadarnhaodd y clerc fod CSYM yn ymwybodol, a chyddai'r gwaith yn cael ei wneud ym mlwyddyn ariannol 19-20.

10. Dyddaida cyfarfod nesaf.

Oherwydd gwyl y banc cytunwyd i gynnal y cyfarfod nos Fawrth, 23 o Ebrill.



Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol / mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com